Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 16: 14-19
17: 12-52

ADNOD ALLWEDDOL
1 Samuel 17: 47

Astudiaeth 2 Bywyd Dafydd – Curo'r Cawr!

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 108: 12-13 1 Corinthiaid 15: 57 Effesiaid 6: 10-18

Ar ôl ymweliad Samuel, cariodd Dafydd ymlaen i ofalu am ddefaid ei dad. Ond mae 1 Samuel 16: 14-19 yn dweud wrthym fod Dafydd yn gwasanaethu'r Brenin Saul trwy ganu'r delyn a chario'i arfau.

C **Darllenwch 1 Samuel 16: 18 ac ysgrifennwch y peth DIWETHAF a ddywedodd gwas Saul am Dafydd.**

1

Roedd hyn yn bwysicach na dim!
Tra oedd Dafydd yn gwasanaethu Saul, roedd y Philistiaid yn paratoi i ymosod ar Israel ac ymunodd tri brawd hynaf Dafydd â'r fyddin i ymladd yn eu herbyn. Weithiau, roedd Dafydd yn gorfod dod adref i ofalu am ddefaid ei dad.

CROESAIR

Llanwch y Croesair i ddysgu am Dafydd yn cael ei anfon i weld ei frodyr ar faes y gad.



Ar draws
1. Pwy oedd wedi paratoi i ymladd yn erbyn yr Israeliaid?
4. Roedden nhw'n ymladd yn nyffryn _ _ _.
7. Enw tad Dafydd.
10. Pan gyrhaeddodd Dafydd y gwersyll roedd y fyddin yn bloeddio'r __ _ _ _ _ _ _ _ _.
11. Roedd y Philistiad yn herio'r Israeliaid fore a _ _ _.

I lawr
2. Roedd Philistiad yn herio'r Israeliaid ers _ _ _ _ _ _ _ diwrnod.
3. Roedd tri brawd hynaf Dafydd wedi dilyn _ _ _ _ i'r rhyfel.
5 i lawr a 12 ar draws. Aeth Dafydd â _ _ _ torth i'w _ _ _ _ _ _.
6 i lawr a 9 ar draws. Un o _ _ __ oedd _ _ _ _ _ _ __ y Philistiad.
8. Aeth Dafydd â chaws i'r _ _ _ __ _ _.

6

C **Roedd ofn Goliath, y cawr, ar bawb ond beth ddywedodd Dafydd wrth Saul pan anfonodd y brenin amdano?**

1

C **Darllenwch adnod 37. Pam roedd Dafydd yn teimlo y gallai wynebu'r Philistiad?** 1

C **Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir a rhowch rif yr adnod i brofi'ch ateb.** 4

Lladdodd Dafydd lew a blaidd. ..... adnod .....

Rhoddodd Dafydd arfwisg Saul amdano. ..... adnod .....

Aeth Dafydd â chleddyf Saul gydag ef i gwrdd â Goliath. ..... adnod .....

Dewisodd Dafydd bedair carreg lefn o nant. ..... adnod .....

C **Beth ddywedodd Goliath wrth Dafydd pan welodd ef gyntaf?** 1

C **Wrth ddarllen adnodau 45 – 47, ysgrifennwch un rhan o BOB adnod sy'n dangos bod Dafydd yn ymddiried yn Nuw ac nid yn ei nerth ei hunan.** 3

Adnod 45

Adnod 46

Adnod 47

Felly curodd Dafydd Goliath yn y frwydr a chafodd fuddugoliaeth i'w frenin a'i wlad. Ar groes Calfaria, enillodd Iesu frwydr a oedd hyd yn oed yn bwysicach dros Satan fel y gallwn ninnau gael ein hachub. Os credwn ynddo a'i dderbyn yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni, byddwn yn gwybod am ei fuddugoliaeth yn ein bywyd ni dros bechod a Satan. Ar ôl i ni gael ein hachub, mae Satan, fel Goliath, yn ein herio ni, gan ein temtio i wneud pethau drwg. Mae angen i ni fod fel Dafydd yn ymddiried yn nerth Duw i'n helpu ni. Yn y Testament Newydd, mae Paul yn dweud bod bywyd y Cristion fel brwydr ac mae'n dweud bod angen i ni wisgo "holl arfogaeth Duw". (Darllenwch Effesiaid 6: 10-18)



C **Ysgrifennwch Effesiaid 6: 10 i gael gwybod pwy sy'n rhoi nerth i ni ennill y frwydr.** 1

C **Pwy yw ein gelyn ni?** 1

C **Pan mae Paul yn ysgrifennu am 'gleddyf yr Ysbryd', am beth y mae'n sôn?** 1